

# **Y Pwyllgor Ymgynghorol Arbenigol Annibynnol ar gyflawni adolygiad parhaus o weithrediad cyfiawnder yng Nghymru**

Adroddiad Cyntaf

Gorffennaf 2019

# **Y Pwyllgor Ymgynghorol Arbenigol Annibynnol ar gyflawni adolygiad parhaus o weithrediad cyfiawnder yng Nghymru**

Adroddiad Cyntaf

Gorffennaf 2019



© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fersiynau gwahanol o'r adroddiad hwn ar gael trwy gysylltu gyda Frederick Blake, Ministry of Justice, 9.13, 102 Petty France, London SW1H 9AJ, [Frederick.Blake@justice.gov.uk](mailto:Frederick.Blake@justice.gov.uk).

## Cynnwys

<b>Crynodeb gweithredol</b>	<b>3</b>
<b>Y cyd-destun</b>	<b>5</b>
<b>Hygyrchedd cyfreithiau Cymru</b>	<b>9</b>
Ymglyfreithwyr drostynt eu hunain	10
Yr Iaith Gymraeg	10
Y farnwriaeth	10
Rhaglenni Llywodraeth Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol i wneud cyfreithiau Cymru'n fwy hygyrch	12
Argymhellion y Pwyllgor ar hygyrchedd cyfreithiau Cymru	13
<b>Ymrannu rhwng cyfreithiau</b>	<b>14</b>
Y diffiniad o ddigartrefedd	14
Deall a chymhwyso cyfreithiau a wneir yn San Steffan a chyfreithiau a wneir yng Nghymru	15
Addysg a hyfforddiant cyfreithiol	15
Adnoddau a darparu gweithredol	15
Heriau eraill yn ymwneud ag ymrannu rhwng cyfreithiau	16
Ymrannu a'r llysoedd	16
Dull Gwasanaeth Eryl y Goron o ddelio ag ymrannu	17
Effaith ymrannu ar ynadon a'u cynghorwyr cyfreithiol	17
Ymdrechion presennol i reoli ymrannu	18
Argymhelliad y Pwyllgor ar ymrannu	19
<b>Cefndir</b>	<b>20</b>
<b>ATODIAD A Argymhellion y Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru</b>	<b>22</b>
<b>ATODIAD B Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol Arbenigol Annibynnol</b>	<b>23</b>
<b>ATODIAD C Cylch gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol Arbenigol Annibynnol</b>	<b>24</b>
Pwrpas a chwmpas	24
Amcanion	24
Adrodd ac atebolrwydd	25
Ymgysylltu â rhanddeiliaid	25
Aelodaeth	25
<b>ATODIAD D Setliad Datganoli Cymru</b>	<b>26</b>
<b>ATODIAD E Y berthynas weithio rhwng yr MoJ a Llywodraeth Cymru</b>	<b>28</b>



## Crynodeb gweithredol

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi gwaith y Pwyllgor Ymgynghorol Arbenigol Annibynnol ("y Pwyllgor") ar gyflawni adolygiad parhaus o weithrediad cyfiawnder yng Nghymru. Roedd sefydlu'r Pwyllgor yn un o argymhellion y Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru a sefydlwyd yn ystod taith Mesur Cymru drwy'r Senedd. Cytunodd yr MoJ (y Weinyddiaeth Gyfiawnder) a Gweinidogion Swyddfa Cymru i sefydlu'r Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru i ystyried beth fyddai'r goblygiadau gweinyddol ac ymarferol i'r system gyfiawnder o weithredu'r corff newydd o ddeddfwriaeth a luniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") a Gweinidogion Cymru, ac i argymhell gwelliannau i drefniadau a gweithdrefnau gweinyddol i sicrhau bod cyfreithiau'r Cynulliad yn cael eu gwreiddio'n llawn yn y system gyfiawnder. Roedd adroddiad y Gweithgor yn cynnwys deg o argymhellion i Weinidogion a'r Arglwydd Brif Ustus.
2. Yn bennaf, roedd argymhellion y Gweithgor yn ymwneud â chryfhau'r berthynas rhwng Llywodraethau Cymru a'r DU ([Atodiad A](#)). Roedd y Gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r MoJ, Swyddfa Cymru, y Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Cabinet, Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol, y Swyddfa Farnwrol ac o Wasanaeth Eryl y Goron. Roedd sefydlu'r Pwyllgor i gyflawni adolygiad parhaus o gyfiawnder yng Nghymru hefyd yn ymrwymiad a wnaed gan weinidogion yn ystod taith Deddf Cymru 2017 drwy'r Senedd.
3. Mae'r Pwyllgor yn wahanol i'r Gweithgor oherwydd ei rôl yw cyflawni adolygiad parhaus o weithrediad cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn dod ag arbenigwyr at ei gilydd o'r farnwriaeth, y sector cyfreithiol, o gyrff gweithredol a hefyd yn cynnwys swyddogion o Lywodraethau Cymru a'r DU i ystyried y prif faterion sy'n effeithio ar ddarparu cyfiawnder yng Nghymru o dan fframwaith Deddf Cymru 2017 ("y Ddeddf") ac i wneud argymhellion ar sut i ddarparu cyfiawnder yn fwy effeithiol.
4. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno gan y Pwyllgor i'r Arglwydd Ganghellor, gyda chopïau i Brif Weinidog Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Arglwydd Brif Ustus. Y pwrpas yw tynnu sylw at brif ganfyddiadau gwaith y Pwyllgor hyd yma a chynnig atebion i'r canfyddiadau hynny.
5. Cyflwynir manylion am Aelodau'r Pwyllgor yn ([Atodiad B](#)) ac yn y cylch gorchwyl ([Atodiad C](#)). Fel rhan o'i gylch gwaith, mae'r Pwyllgor yn ystyried effaith cyfreithiau a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU ar weithrediad y system gyfiawnder o dan awdurdodaeth gyfreithiol gyfunol Cymru a Lloegr ac yn gweithio'n strategol i adnabod y prif broblemau sy'n wynebu'r tirlun cyfiawnder yng Nghymru, sut y gellir eu goresgyn a pha gyfleoedd ehangach sy'n bodoli i weinyddu cyfiawnder yn well. Mae'r heriau a'r cyfleoedd hyn yn ymwneud â holl feysydd yr awdurdodaeth gyfreithiol gyfunol, gan gynnwys y trefniadau cyfiawnder troseddol; llysoedd a thribiwnlysoedd, carchardai a phrawf; ymarfer y gyfraith a'r farnwriaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn monitro unrhyw fater yn ymwneud â'r berthynas rhwng tribiwnlysoedd sydd wedi eu datganoli i Gymru a rhai sydd yng ngofal Llywodraeth y DU. Hefyd, mae'r Pwyllgor yn ystyried goblygiadau ehangach datblygiadau polisi gan Lywodraeth y DU ar weithrediad cyfiawnder yng Nghymru, er mwyn argymhell atebion hirdymor cynaliadwy ar gyfer ei ddarparu'n well. Mae'r gwaith yn gyfle i fabwysiadu dull mwy

ffurfiol o fynd i'r afael â'r heriau sy'n cael eu hadnabod yn yr adroddiad cyntaf hwn ar weithrediad cyfiawnder yng Nghymru.

6. Mae'r cwestiynau allweddol i'r Pwyllgor ar y funud yn ymwneud ag ymrannu rhwng cyfreithiau, a hygyrchedd cyfreithiau Cymru. Y prif flaenoriaethau yw sicrhau bod effeithiau deddfwriaeth a chyfreithiau'n ymrannu ar y system gyfiawnder yn cael eu hadnabod yn iawn, bod hygyrchedd gwell at gyfreithiau Cymru a bod cydweithrediad mwyfwy o hyd rhwng swyddogion yr MoJ a Llywodraeth Cymru.
7. Mae'r Adroddiad hwn yn adlewyrchu ystod o safbwyntiau gan Aelodau'r Pwyllgor. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gwahaniaeth yn eu safiad ar ddatganoli cyfiawnder. Nid yw cyfraniad y llywodraethau at waith y Pwyllgor yn effeithio ar y safiadau hyn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Arglwydd Thomas i gynnal adolygiad o'r trefniadau cyfiawnder yng Nghymru, sydd i adroddiad yn yr hydref. Mae ystyriaethau'r Pwyllgor a gyflwynir yn yr adroddiad hwn wedi eu gwneud heb ragfarnu gwaith adolygiad Arglwydd Thomas. Mae Aelodau'r Pwyllgor wedi bod yn ymgysylltu ag Arglwydd Thomas a'i gomisiwn, a bydd ganddynt ddiddordeb mewn gweld ei argymhellion terfynol maes o law.

## Y cyd-destun

8. Ers deddfu Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ennill cymhwysedd deddfwriaethol dros faterion sy'n effeithio ar fywydau bob dydd holl bobl Cymru. Mae'r Cynulliad yn gyfrifol am ddeddfu ar bethau fel gofal iechyd, addysg, tai a gofal cymdeithasol, y rhan fwyaf ohonynt yn feysydd sy'n cyffwrdd â materion sy'n parhau i fod yng ngofal Senedd y DU. Efallai mai ym maes cyfiawnder y gwelir y cyswllt mwyaf rhwng materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl. Er enghraifft, nid yn unig y mae'n rhaid darparu gofal iechyd ac addysg i bobl yn y carchar ac unedau dan glo eraill, mae materion datganoledig yn aml yn effeithio'n sylweddol ar y pethau sydd wrth wraidd troseddu ymhlith pobl ifanc: teulu a bywyd cymdeithasol, cyffuriau a materion iechyd eraill yn ogystal ag addysg.
9. Felly hefyd, mae'r rhan fwyaf o bolisiau datganoledig yn dibynnu ar y system gyfiawnder i weithredu'n effeithiol: o anghydfod sifil ynghylch tai i droseddau'n ymwneud â materion datganoledig, mae deddfwriaeth y Cynulliad yn debygol o effeithio rhywfaint ar y system gyfiawnder a bydd angen i'r proffesiwn cyfreithiol, y farnwriaeth a'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r gwahanol drefniadau yn y ddwy wlad.
10. Mae'n hanfodol felly, o dan y setliad datganoli presennol, ac er mwyn darparu cyfiawnder yn effeithiol yng Nghymru a Lloegr, bod perthynas agos a chydweithredol rhwng materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl. Rhaid cael trefniadau clir yn eu lle i sicrhau bod y rhyngwyneb, o ran cyfiawnder, rhwng materion datganoledig a rhai a gedwir yn ôl, yn cael ei adnabod a'i reoli'n briodol gan yr MoJ a Llywodraeth Cymru. Rhaid i'r bobl sy'n gyfrifol am bolisi datganoledig a pholisi a gedwir yn ôl ac am ddarparu gwasanaethau yng Nghymru fod yn llwyr ymwybodol o'u dyletswyddau, eu hymrwymadau ac effaith y canlyniadau y maen nhw'n gweithio tuag atynt.
11. Ceir enghreifftiau lu o arferion da a gweithio'n gydweithredol sy'n gwella'r broses o ddarparu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr enghreifftiau o berthynas weithio dda yng nghyd-destun gweithrediad effeithiol y system gyfiawnder. Bydd y Pwyllgor yn gwerthuso'r sefyllfa wrth fynd ymlaen er mwyn adnabod gwersi a ddysgwyd a chanolbwyntio ar feysydd lle mae angen gwelliannau. Dyma rai o'r fforymau a sefydlwyd er mwyn gwella cydweithio yng Nghymru:
  - a. Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan – sy'n cyflwyno dull strategol amlasiantaeth ar gyfer gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae'n nodi'r blaenoriaethau strategol ar gyfer byrddau cyfiawnder troseddol lleol a'r cyfeiriad strategol i Fwrdd Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM) Cymru.
  - b. Bwrdd IOM Cymru – sy'n darparu cyfeiriad strategol a llywodraethu i bartneriaid cyfiawnder cymdeithasol a throseddol, yn cryfhau cydgyfrifoldeb a chydweithio i ddarparu gwasanaethau integredig i atal trosedd, lleihau troseddu ac aildroseddu, ac yn sicrhau gweithrediad effeithiol y 'Fframwaith i gefnogi newid i rai sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru, 2018-2023'.



- c. Y Grŵp Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru – sy'n sicrhau ymgysylltu ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru ar rai o'r prif feysydd datblygu a diwygio polisi er mwyn cyd-ddarparu'r canlyniadau gorau posib ar draws y system gyfiawnder yng Nghymru.
- d. Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuencid Cymru – sy'n cynorthwyo Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid i weithredu polisi sy'n atal troseddu ac aildroseddu gan blant a phobl ifanc yng Nghymru.
- e. Merched mewn Cyfiawnder – sy'n darparu llywodraethu a chyfeiriad strategol i bartneriaid cyfiawnder troseddol a chymdeithasol gan sicrhau bod yr agenda merched mewn cyfiawnder troseddol yn cael ei chyflwyno'n effeithiol yng Nghymru ynghyd â'r cyfeiriad strategol / polisi perthnasol. Mae'r fforwm hwn yn adrodd i Fwrdd IOM Cymru ar benderfyniadau a datblygiadau pwysig i gefnogi ei nod o ddatblygu rhaglen waith yn unol â chyfarwyddyd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan.
- f. Grŵp Llwybrau Lleihau Aildroseddu Llywodraeth Cymru – sy'n goleuo cynllunio strategol o gwmpas lleihau aildroseddu a throseddu drwy gyfrannu at ddealltwriaeth well o anghenion troseddwr o ran dilyn llwybrau lleihau aildroseddu; yn cwmpasu'r ddarpariaeth bresennol a datblygu amcanion sy'n goleuo penderfyniadau cynllunio a chomisiynu. Mae'n rhoi cyngor i Fwrdd IOM Cymru i gefnogi'r gwaith parhaus o ddatblygu a darparu'r 'Fframwaith i gefnogi newid er gwell i rai sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru 2018-2023'.
- g. Mae Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg wedi mabwysiadu dull cydlynol o sicrhau bod asiantaethau cyfiawnder sy'n weithredol yng Nghymru, neu y mae eu gwaith yn effeithio ar Gymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r farnwriaeth, Cymdeithas y Gyfraith, y Bar, Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.
- h. Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar Gamddefnyddio Sylweddau – sy'n goruchwyllo cyflwyno Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru, a'r cynllun darparu cysylltiedig. Mae'n tywys a monitro cynnydd ac yn hwyluso cydgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru, asiantaethau statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol.
- i. Cadeiryddion Bwrdd y Byrddau Cynllunio Ardal – cynhelir cyfarfod misol gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) i drafod blaenoriaethau'r bartneriaeth. Y blaenoriaethau yw:
  - i. Ystyriaethau amgylcheddol – creu amgylchedd o iechyd a lles ar draws y carchar
  - ii. Iechyd meddwl – datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, lles meddwl ac anableddau dysgu cyson ar draws yr holl garchardai sydd wedi eu teilwrio i angen
  - iii. Camddefnyddio sylweddau - sefydlu llwybr clinigol safonol sy'n integreiddio â gwasanaethau seico-gymdeithasol i reoli camddefnyddio sylweddau mewn carchardai yng Nghymru
  - iv. Rheoli meddyginiaeth – datblygu safonau ar gyfer rheoli meddyginiaeth mewn carchardai yng Nghymru

- j. Hefyd, i helpu i ddarparu'r blaenoriaethau strategol allweddol hyn, mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) a Llywodraeth Cymru yn cyd-ddatblygu dangosyddion iechyd yn y carchar fel y gallwn fonitro cynnydd. Cefnogir y rhain gan wybodaeth drylwyr am berfformiad gwasanaethau iechyd yn y carchar. Ar hyn o bryd mae'r trefniadau adrodd ar berfformiad iechyd mewn carchardai, ar draws y Byrddau Iechyd Lleol, yn anghyson – bydd cyfres o ddangosyddion cyffredin wedi eu mesur yn ein cynorthwyo i adnabod unrhyw broblemau perfformiad a monitro cynnydd.
  - k. Mae gan bob carchar fwrdd partneriaeth iechyd lle mae'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r Carchar yn dod at ei gilydd i drafod unrhyw broblemau. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd gyfarfod misol â'r prif swyddogion gofal iechyd ym mhob carchar i weithredu blaenoriaethau a rhannu arferion da a phryderon etc.
  - l. Yn 2018 cytunodd HMPPS Cymru a Llywodraeth Cymru ar strategaeth ddysgu a sgiliau a hefyd sefydlu pwyllgor dysgu, cyflogaeth a diwydiant i oruchwylio gweithrediad y strategaeth ddysgu a sgiliau. Mae'n cael ei gadeirio gan HMPPS Cymru - mae'r rhai sy'n mynychu'n cynnwys holl lywodraethwyr carchardai Cymru, cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS), cynrychiolydd o'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC), Cyfarwyddwr Llywodraethwyr Carchardai, Pennaeth Rhanbarthol Dysgu a Sgiliau, Estyn, Llywodraeth Cymru, cynrychiolydd o Rwydwaith Dyfodol Newydd Cymru a Chyd-Gomisiynydd HMPPS Cymru. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod pob chwarter ac mae grwpiau gorchwyl a gorffen y tu allan i'r cyfarfodydd hyn i symud ymlaen gyda'r gwaith.
12. Nid yw'r Pwyllgor yn ceisio dyblygu gwaith y grwpiau hyn; ei rôl yw cadw trosolwg ar faterion sy'n effeithio ar effeithiolrwydd y system gyfiawnder fel rhan o awdurdodaeth gyfreithiol gyfunol Cymru a Lloegr.
13. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Arglwydd Thomas o Gwmgïedd i adolygu gweithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys y cwestiwn ehangach ynghylch a ddylid datganoli mwy o'r system gyfiawnder i Gymru. Yn anochel bydd rhywfaint o groesi drosodd rhwng gwaith y Pwyllgor a'r Comisiwn, a bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn gwybod beth fydd canfyddiadau'r Comisiwn maes o law.
14. Dechreuodd y Pwyllgor ar y gwaith ym Mai 2018 gan drafod ystod eang o faterion yn ymwneud â gweithrediad cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn cael ei gadeirio gan un o uwch-swyddogion Swyddfa'r Cabinet ac mae'n annibynnol o'r MoJ, Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn rhydd i ystyried unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â gweithrediad ymarferol y system gyfiawnder yng Nghymru o dan awdurdodaeth gyfunol Cymru a Lloegr.
15. Daeth yn amlwg yn fuan yng ngwaith y Pwyllgor bod dau fater allweddol sy'n effeithio ar ddarparu cyfiawnder yng Nghymru yn ymwneud ag ymrannu rhwng cyfreithiau a hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae ymrannu'n digwydd pan fydd gwahaniaeth yn y gyfraith a wnaed gan y Cynulliad a'r gyfraith a wnaed gan Senedd y DU yn Lloegr. Mae hygyrchedd yn her i'r farnwriaeth, i ymglyfreithwyr a rhai sy'n ymarfer y gyfraith o ran deall pa gyfreithiau sy'n berthnasol. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried sut i wella'r system gyfiawnder i gyd-fynd â gwaith y gwasanaethau datganoledig a'r gwasanaethau a gedwir yn ôl yng Nghymru.

16. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi nodi'n glir bod angen i'r MoJ a Llywodraeth Cymru weithio'n fwy strategol a chydweithredol i sicrhau bod yr effaith ar y swyddogaethau datganoledig, a'r rhai a gedwir yn ôl, yn cael ei ystyried yn iawn o'r dechrau. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn ystyried sut y gallai'r MoJ gynnig cymorth ymarferol i randdeiliaid ar ymrannu rhwng cyfreithiau o fewn awdurdodaeth gyfunol Cymru a Lloegr, a sut i wneud cyfreithiau Cymru'n fwy hygyrch, i gyd-fynd â gwaith Llywodraeth Cymru yn y meysydd hyn. Mae meysydd pwysig eraill o ran diwygio'r llysoedd a'r carchardai, a allai gael yr effaith fwyaf ar faterion datganoledig (mae diwygio'r llysoedd yn ymwneud â mynediad at gyfiawnder, a diwygio'r carchardai yn bennaf ymwneud ag integreiddio â gwasanaethau datganoledig fel addysg ac iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol).

## Hygyrchedd cyfreithiau Cymru

17. Mae deddfwriaeth y DU yn gymharol hygyrch yng Nghymru a Lloegr; mae cyfreithiau ar gael yn ddi-dâl ar wefan Senedd y DU a gall cyfreithwyr ac unigolion preifat fel ei gilydd ddefnyddio'r gyfraith berthnasol mewn ffordd thematig drwy wahanol gyhoeddiadau masnachol ac adnoddau digidol. Fodd bynnag, efallai na fydd cyfraith ar bwnc penodol yng Nghymru (ac yn wir yn y DU) ar gael mewn un lle, ond yn hytrach ar draws cyfraith achosion, deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a deunyddiau eraill fel canllawiau swyddogol, rheolau llys a chyfarwyddiadau ymarfer a allai effeithio ar hawliau ac ymrwymadau cyfreithiol. Cymhlethir hyn ymhellach gan y ffaith bod y rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth, o ran swmp, yn is-ddeddfwriaeth a llawer ohoni'n diwygio darnau eraill o ddeddfwriaeth - gyda newidiadau rheolaidd sydd angen eu diweddar. Gall cael gafael ar gyfraith berthnasol ar sail thema, felly, fod yn anodd gan ofyn cael sgiliau arbenigol i adnabod, cadarnhau a deall y gyfraith gyfredol.
18. Gallai fod yn anodd a heriol i adnabod a chael gafael ar y gyfraith ar bwnc neilltuol os yw'n ymwneud â mater sydd wedi'i ddatganoli yng Nghymru. Mae cyfraith Cymru (y gyfraith sydd mewn grym yng Nghymru) wedi'i chynnwys nid yn unig yn Neddfau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac is-ddeddfwriaethau a luniwyd gan Weinidogion Cymru, ond hefyd yn neddfiadau Senedd a Llywodraeth y DU. Mae Deddfau Seneddol yn aml yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru yn unig, i Loegr yn unig neu i Gymru a Lloegr. Yn aml mae hyn hefyd yn cynnwys darpariaeth ar wahân ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n ychwanegu at y cymhlethdod. Er enghraifft, gallai achos teuluol gynnwys ystod o faterion y bydd y Cynulliad efallai wedi deddfu arnynt fel lles plant, tai ayb, ond eto, bydd deddfwriaeth neu gyfraith achosion y DU hefyd yn berthnasol i'r achos. Bydd angen i'r holl bartïon, y cyfreithwyr a'r barnwyr, wybod beth yw'r gyfraith berthnasol. Ar hyn o bryd gallai olygu, er enghraifft, chwilio drwy gyfuniad o ffynonellau, gan gynnwys defnyddio meddalwedd chwilio darparwyr masnachol, a ffynonellau cyhoeddus - gwefan [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk) yn bennaf, ond hefyd gwefan Cyfraith Cymru Llywodraeth Cymru.
19. Mae'r Pwyllgor yn awgrymu bod y sefyllfa'n fwy astrus o ran materion datganoledig yng Nghymru oherwydd ymddengys nad yw rhai darparwyr testunau cyfreithiol masnachol yn cynnig offeryn dynodedig i chwilio am gyfreithiau penodol i Gymru. Mae mater tebyg yn codi o ran cyhoeddiadau a chyfnodolion. O ystyried y nifer gymharol fach o gyfreithwyr sy'n ymarfer yng Nghymru (tua 3,743 o gyfreithwyr yn ymarfer o'i gymharu â 143,198 ar draws Cymru a Lloegr i gyd) a'r swmp cymharol isel o gyfraith a luniwyd gan y Cynulliad, y dystiolaeth hanesol yw nad oedd gan ddarparwyr masnachol ddigon o alw i greu offeryn penodol ar gyfer Cymru.
20. Mae'r Pwyllgor wedi edrych ar yr heriau gyda chael gafael ar gyfreithiau Cymru, fel yr eglurir isod.

## Ymglyfreithwyr drostynt eu hunain

21. Mae papur briffio Tŷ'r Cyffredin (07113, 14 Ionawr 2016): *Litigants in person: the rise of self-represented litigants in civil and family cases* (Gabrielle Garton Grimwood) yn awgrymu (ledled Cymru a Lloegr) bod y gyfran o ymglyfreithwyr drostynt eu hunain yn y llysoedd sifil a theulu wedi cynyddu ers i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012 newid y sgôp ar gyfer rhoi cymorth cyfreithiol i achosion cyfraith breifat a sifil yng Nghymru a Lloegr o fis Ebrill 2013 ymlaen. Felly mae nifer gynyddol o unigolion wedi troi at 'hunangymorth' i geisio cael gafael ar gyfreithiau. Byddai llawer o'r ymglyfreithwyr drostynt eu hunain hyn yn dibynnu ar ffynonellau ar-lein, ond nid yw cael gafael ar ffynonellau ar-lein mor hawdd i'r cyhoedd - yn enwedig rhai sydd wedi eu heithrio'n ddiridol - o'i gymharu â'r tanysgrifiwr proffesiynol.

## Yr Iaith Gymraeg

22. O dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993, mae gan ymglyfreithwyr drostynt eu hunain hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg ac mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gwneud cyfreithiau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r "cyfarwyddyd ymarfer ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion yn y llysoedd sifil yn, neu mewn cysylltiad â Chymru" (4 Hydref 2018) hefyd yn darparu ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn achosion sifil. Pwrpas y cyfarwyddyd ymarfer hwn yw adlewyrchu egwyddorion Deddf Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 y dylid, wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw cyhoeddwy'r cyfreithiau masnachol yn rhoi gwybodaeth am y gyfraith yn Gymraeg. Felly byddai'n amhosib i rai ymglyfreithwyr drostynt eu hunain gael gafael ar gyfreithiau yn Gymraeg. Gallai hyn fod yn eithaf anodd mewn sefyllfaoedd lle byddai'r achos yn cael ei gynnal yn Gymraeg.

## Y farnwriaeth

23. Gall y farnwriaeth gael gafael ar gyfreithiau Cymru drwy wefan Cyfraith Cymru a'r Archifau Gwladol ([legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk)), lle mae copïau dwyieithog o Ddeddfau'r Cynulliad ac Offerynnau Statudol (SI) ar gael i ddefnyddwyr barnwrol. Mae Nodiadau Esboniadol hefyd ar gael. Er hynny, ar hyn o bryd ymddengys nad oes ffordd hwylus ar y gwefannau hyn o sefydlu pa Offerynnau Statudol (SI) neu Nodiadau Cyfarwyddyd sydd wedi eu gwneud ar y ddeddfwriaeth honno. Mae hyn yn broblem i'r DU yn gyffredinol, yn ogystal ag i Gymru.
24. Gall gwefan y Cynulliad hefyd helpu'r farnwriaeth i gael gafael ar, a deall unrhyw newidiadau sydd ar y gweill, ond dim ond Cyfraith Cymru (i raddau) a gwefan [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk) (y ffynhonnell swyddogol) sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd at gyfreithiau Cymru.
25. Mae gan aelodau o'r farnwriaeth hefyd fynediad at feddalwedd masnachol fel Westlaw. Mae adnoddau masnachol yn cynnig gwell gwasanaeth sy'n galluogi defnyddwyr i ddewis chwilio am ddeddfwriaeth y Cynulliad. Wrth ddefnyddio opsiwn chwilio Westlaw, gellir dewis Deddf, e.e. Deddf Tai (Cymru) 2014 ac mae yna hefyd gwymplen sy'n cynnwys: *commencement; all legislation citing; SI made under this Act;*

*Articles and Journals; Definitions and Insight.* Mae'r adran "SI made under this Act" yn fwyaf defnyddiol pan fo'r holl ddeunydd perthnasol ar gael. O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014, er enghraifft, daeth o hyd i 48 gwahanol set o Reoliadau. Fodd bynnag, gallai fod bwch o hyd gyda chanfod y ddolen briodol i'r Codau Ymarfer, yn enwedig wrth ddefnyddio gwefannau masnachol. Mae'n uchelgais gan Lywodraeth Cymru bod gwefan Cyfraith Cymru'n datrys y broblem hon drwy leoli mynediad at ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a lled-ddeddfwriaeth i gyd mewn un lle.

26. Yn anffodus er bod gan ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, o dan Ddeddf Iaith Gymraeg 1993, hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion cyfreithiol, dim ond yn Saesneg y mae'r ddeddfwriaeth ar gael drwy ddarparwyr masnachol ar hyn o bryd. Gallai hefyd fod angen croesgyfeirio rhwng testun deddfwriaeth yn Saesneg ac yn Gymraeg er mwyn dehongli'r bwriad yn gywir. Mae hefyd yn bwysig nodi er bod gan aelodau o'r farnwriaeth fynediad at y darparwr masnachol hwn, na fydd gan y cyhoedd na'r proffesiwn cyfreithiol fynediad oni bai eu bod yn talu amdano.
27. Mae gan Bwyllgor Hyfforddiant Cymru'r Coleg Barnwrol rôl bwysig i'w chwarae mewn gwneud cyfreithiau Cymru'n hysbys fel rhan o addysg y farnwriaeth a ddarperir eisoes gan y Coleg Barnwrol. Mae'r cynnydd mewn ymrannu rhwng cyfreithiau a wneir yng Nghymru a rhai a wneir yn San Steffan yn golygu bod angen ystyried ymhellach a oes angen addysg benodol sy'n tynnu sylw ac egluro'r gwahaniaethau i'r farnwriaeth a sut i ystyried materion 'trawsffiniol'. Bydd angen i unrhyw ddull gwahanol o hyfforddi'r farnwriaeth yn y dyfodol adlewyrchu bod ymrannu'n digwydd pan fydd dwy ffynhonnell o ddeddfwriaeth ar gael ac nad yw felly'n fater sy'n berthnasol i Gymru'n unig, ond i Gymru ac i Loegr. Byddai angen cyllid digonol pe bai'r math yma o hyfforddiant yn cael ei ddarparu.
28. Nid yw rhai o'r heriau'n ymwneud â hygyrchedd wedi digwydd o ganlyniad i ddatganoli yng Nghymru ond oherwydd heriau gyda sefydlu llyfr statud cyfun neu wedi'i godeiddio. Yn gyffredinol, nid yw'r gyfraith ar hyd a lled y DU ar gael yn thematig ar lwyfannau cyhoeddus, ond mae, er hynny, yn fwy hygyrch yn Lloegr nag y mae yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor wedi awgrymu mai'r brif broblem yw mynediad at ddeddfwriaeth gyfunol heb dalu am wasanaeth tanysgrifio sy'n darparu testunau cyfreithiol cyfunol. Mae hyn yn wir am bob awdurdodaeth ac yn broblem i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ac ymarferwyr y gyfraith ar draws y DU.
29. Mae'r Pwyllgor wedi awgrymu, er bod cyfreithiau ar gael i'r cyhoedd yn ddi-dâl, nad oedd hynny bob tro'n wir o ran cael mynediad thematig at gyfreithiau. Bu'r Pwyllgor yn ystyried materion ehangach. Er enghraifft, hawl pobl i gael gafael ar gyfraith. Awgrymodd os yw deddfwrfeydd yn parhau i newid hawliau pobl, a ddylen nhw hefyd ddarparu'r ddeddfwriaeth gyfunol am gost i'r cyhoedd? Awgrymodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol ystyried opsiynau o ran sut y gallai pobl gael gafael ar ddeddfwriaeth gyfunol heb dalu tanysgrifiad i gwmnïau preifat sy'n darparu'r gwasanaeth hwn. Roedd y Pwyllgor hefyd yn cydnabod na fyddai efallai'n fasnachol hyfyw i ddarparwyr masnachol preifat ddiweddarau rhai meysydd cyfraith yn barhaus.

## Rhaglenni Llywodraeth Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol i wneud cyfreithiau Cymru'n fwy hygyrch

30. Roedd y Pwyllgor yn croesawu rhaglen waith Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfreithiau Cymru, fydd yn y dyfodol agos yn dod yn ddyletswydd statudol gan dybio y bydd Mesur Deddfwriaeth (Cymru) yn cael ei basio gan y Cynulliad (gweler isod). Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn nodi gwefan 'Cyfraith Cymru' Llywodraeth Cymru (cydweithrediad gyda Westlaw UK), sy'n ceisio rhoi trosolwg ar gyfraith Cymru ynghyd â sylwebaeth ar bynciau penodol gan ddibynnu felly ar gyfraniadau gan ymarferwyr ac eraill o'r proffesiwn. Mae'n ymdrin â materion yn ymwneud â'r economi, gwasanaethau cyhoeddus, yr amgylchedd a diwylliant. Mae hefyd yn gosod deddfwriaeth allweddol o dan wahanol bynciau sy'n cyfateb yn fras i'r cymwyseddau sydd wedi eu datganoli i'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r gwaith yn mynd rhagddo,
31. Ar gais Llywodraeth Cymru, cyflawnodd Comisiwn y Gyfraith brosiect ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n berthnasol i Gymru gan gyflwyno ei adroddiad ar 29 Mehefin 2016. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei hymateb ar 19 Gorffennaf 2017 a chytunodd ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith "*.....bod angen rhaglen hirdymor a pharhaus o gyfuno a chodeiddio cyfreithiau Cymru...i sicrhau bod cyfreithiau Cymru'n hawdd cael gafael arnynt*".
32. I'r perwyl hwn, ar 3 Rhagfyr 2018 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fesur Deddfwriaeth (Cymru) i'r Cynulliad. Nod y Mesur yw gwneud cyfraith Cymru'n fwy eglur a hygyrch. Mae'n darparu ar gyfer dehongli a gweithredu deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru weithredu i wneud cyfraith Cymru'n fwy hygyrch. Un o brif amcanion y Mesur yw hwyluso'r gwaith cyfuno, ac yn y pendraw, codeiddio cyfraith Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ail-lunio deddfwriaethau sy'n ymwneud â meysydd datganoledig sydd ar hyn o bryd yn rhan o Ddeddfau Llywodraeth y DU.
33. Yn ogystal â'r Mesur, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar brosiectau eraill fydd yn y pen draw yn ffurfio rhan o'r rhaglen waith sy'n ofynnol o dan y Mesur. Mae hyn yn cynnwys cydweithredu â'r Archifau Gwladol – cyn gweithio ar raglen godeiddio fydd yn cymryd cenhedlaeth neu fwy i'w chwblhau – ar system o gategoreiddio'r gyfraith hon. Bydd modd wedyn trefnu deddfwriaeth yn ôl ei chynnwys yn hytrach na dyddiad ei gwneud. Bydd cyhoeddi deddfwriaeth yn wahanol yn y dyfodol yn ei gwneud yn haws i bobl ddod o hyd i ac, yn greiddiol, i wybod am ei bodolaeth. Mae Offerynnau Statudol mor niferus ac yn cael eu gwneud mor aml fel ei bod yn anodd iawn aros yn gyfredol. Mae'r cysylltiad rhwng yr Offerynnau a'r Ddeddf gysylltiedig hefyd yn aneglur. Bydd trefnu'r ddeddfwriaeth hon o dan bynciau, yn enwedig lle mae offerynnau'n gweithredu cyfraith Ewropeaidd, yn garreg filltir anferth.
34. Mae trafodaethau hefyd ar y gweill â'r Archifau Gwladol ynghylch bod Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl fwy amlwg mewn sut y cyhoeddir cyfreithiau Cymru. Cyfrifoldeb Argraffydd y Frenhines yw hyn sy'n cael ei gyflawni'n ymarferol gan dîm deddfwriaethol yr Archifau yn Kew Gardens. Maent wedi bod yn gwneud cynnydd da yn ddiweddar yn ymgorffori diwygiadau i ddeddfwriaeth yn sgil deddfwriaeth fwy diweddar er mwyn cyhoeddi'r llyfr statud ar ei ffurf ddiweddaraf. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn wedi'i gyfyngu'n bennaf i ddeddfwriaeth sylfaenol a dim ond i destun Saesneg deddfwriaeth sylfaenol yng Nghymru. Mae trefniadau newydd yn y broses o

gael eu cytuno lle bydd y dasg o ddiweddarau deddfwriaeth Cymru - yn Saesneg ac yn Gymraeg - yn cael ei gymryd drosodd gan Lywodraeth Cymru. Blaenoriaeth gyntaf Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r cyfrifoldeb newydd hwn fydd delio â'r anghysondeb presennol rhwng testunau cyfreithiol cyhoeddedig yn Saesneg a rhai yn Gymraeg. Yn y pen draw, nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod holl deddfwriaeth Cymru ar y llyfr statud yn cael ei chyhoeddi ar ei ffurf ddiweddaraf.

35. Mae hefyd yn nod gan Lywodraeth Cymru i ail-lansio gwefan Cyfraith Cymru yn 2019. Mae'r wefan eisoes yn cyflawni pwrpas defnyddiol ond mae'n brin o gynnwys, ac felly mae'n syrthio'n brin o ran disgwyliadau pobl. Mae Cwnsler Cyffredinol Cymru wedi pwysleisio bod angen datblygu'r wefan mewn cydweithrediad â chymuned gyfreithiol Cymru a'r gymdeithas ddinesig ehangach.
36. Roedd y Pwyllgor yn croesawu gwaith y Cwnsler Cyffredinol i wella hygyrchedd cyfreithiau Cymru a'i fwriad i ail-lansio'r wefan Cyfraith Cymru. Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod hyn yn gyfle i wneud ymdrechion cydweithredol pellach i ddatrys y broblem o wella hygyrchedd cyfreithiau Cymru.
37. Awgrymodd y Pwyllgor fod angen i'r MoJ weithio gyda Llywodraeth Cymru i drafod cyfleoedd pellach i gydweithio. Gallai fod goblygiadau adnoddau i unrhyw gynigion a dylid cymryd camau i adnabod goblygiadau cost y cynigion. Mae angen i Weinidogion wybod beth yw'r costau'n gysylltiedig â chynigion fel y gallant wneud penderfyniadau polisi ar y ffordd ymlaen.

## Argymhellion y Pwyllgor ar hygyrchedd cyfreithiau Cymru

38. Mae'r Pwyllgor yn gefnogol i waith pellach gael ei wneud yng Nghymru gyda golwg ar wella hygyrchedd cyfreithiau a wneir yng Nghymru, ac yn argymhell bod yr MoJ:
  - a. yn cydweithredu â Llywodraeth Cymru ar ei rhaglen waith i wneud cyfreithiau Cymru'n fwy hygyrch
  - b. yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Archifau Gwladol i weld a allai gwefannau Cyfraith Cymru a [legislation.gov.uk](http://legislation.gov.uk) gynnig cyfleusterau chwilio pwrpasol gwell sy'n debyg i rai a gynigir gan ddarparwyr masnachol
39. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymhell y gallai'r MoJ ystyried y camau ymarferol canlynol i wneud cyfreithiau Cymru'n fwy hygyrch, er enghraifft:
  - a. gwaith ar y cyd posib rhwng Llywodraeth Cymru a chyhoeddwy'r masnachol i wella'r broses o gyhoeddi cyfraith (gan gynnwys darparu meddalwedd chwilio penodol ar gyfer cyfreithiau Cymru) gan ystyried yr ymrannu rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr a'r Ialith Gymraeg
  - b. gwaith ar y cyd posib gyda sefydliadau ymarferwyr i gynhyrchu canllaw ar gyfreithiau sy'n berthnasol i Gymru



## Ymrannu rhwng cyfreithiau

40. Mae ymrannu rhwng cyfreithiau yn digwydd, nid yn unig rhwng deddfiadau gwahanol (e.e. y rhai hynny a gaiff eu pasio gan y Cynulliad ar un llaw a Llywodraeth DU ar y llaw arall), ond hefyd o fewn deddfiadau (DU). Mae'n bosib pasio cyfraith dan un darn o ddeddfwriaeth sylfaenol, er enghraifft dan Ddeddf Iechyd 2006, sy'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer Cymru.
41. Enghreifftiau diweddar o ymrannu posib yw bwriad Llywodraeth Cymru i ddeddfu i wneud i ffwrdd â'r amddiffyniad o gosb resymol yng nghyswllt cosbi plant yn gorfforol; a chynigion i adael i bobl ifanc 16 a 17 oed bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad a llywodraeth leol yng Nghymru, a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 sy'n gwneud newidiadau ar raddfa eang i gyfraith landlordiaid a thenantiaid preswyl yng Nghymru.

## Y diffiniad o ddigartrefedd

42. Enghraifft bellach lle mae ymrannu eisoes wedi effeithio ar ddarparu yw gyda deddfwriaeth ddigartrefedd. Os yw unigolion "dan fygythiad o fod yn ddigartref", maent yn gymwys i gael cyngor cyfreithiol. Yn 2015 cyflwynwyd diffiniad newydd o "dan fygythiad o ddigartrefedd" yng Nghymru drwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014. O dan y Ddeddf, diffiniwyd digartrefedd fel unrhyw un sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod - yn Lloegr y diffiniad yw unrhyw un sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref o fewn 28 diwrnod. Oherwydd cymhwysu'r diffiniad hwn o ddigartrefedd, roedd mynediad at Gymorth Cyfreithiol yng nghyswllt hyn ar gael i bobl yng Nghymru 28 diwrnod cyn rhai yn Lloegr ac roedd angen i'r gweithdrefnau asesu mewnol, yn ogystal â rhai darparwyr cymorth cyfreithiol (cyfreithwyr) adlewyrchu hynny.
43. Ers 3 Ebrill 2018 mae Deddf Lleihau Digartrefedd 2017 wedi diwygio'r diffiniad yn Lloegr i 56 diwrnod. Mae'r cyfnod yn y ddwy wlad bellach yn gyson ar 56 fel bod Cymru a Lloegr unwaith eto'n rhannu'r un diffiniad, ond effaith hyn oedd dau newid a chyfnod o ymrannu.
44. Mae'r Pwyllgor wedi nodi bod y systemau a'r prosesau a roddwyd yn eu lle i reoli ymrannu'n gweithio'n dda ar hyn o bryd, gydag ymgysylltu da rhwng yr MoJ a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi awgrymu y gallai'r system bresennol ddod dan fwy o straen os bydd mwy o ymrannu. Nid oes unrhyw systemau dynodedig yn eu lle ar lefel ddarparu a gweithredol i reoli unrhyw ymrannu pellach yn y dyfodol. Yn benodol, rhaid sicrhau bod y breichiau gweithredol yn barod am yr effeithiau a'r newidiadau unwaith y deddfir y ddeddfwriaeth, er enghraifft ar wasanaethau yn y carchardai lle gallai ymrannu olygu bod carcharorion yn yr un gell wedi cyflawni'r un drosedd ond y bydd ganddynt ddeddfrydau gwahanol ayyb, neu pan fydd newidiadau'n digwydd o ganlyniad i effaith yr MoJ ar wasanaethau datganoledig.
45. Fel gyda goblygiadau cost rhaglenni i wella hygyrchedd at gyfreithiau Cymru, mae angen i Weinidogion wybod beth yw goblygiadau cost ac adnoddau unrhyw drefniadau a chynigion er mwyn rheoli'r ymrannu cynyddol rhwng cyfreithiau.
46. Mae ymrannu'n effeithio ar y system gyfiawnder mewn sawl maes.

## Deall a chymhwyso cyfreithiau a wneir yn San Steffan a chyfreithiau a wneir yng Nghymru

47. Gallai ymrannu rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr hefyd greu cymhlethdodau posib i ymarferwyr, aelodau o'r farnwriaeth ac eraill sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder wrth gymhwyso'r gyfraith, er enghraifft gallai rwymedi neu ddeddfryd yn ymwneud â mater neilltuol fod yn wahanol yng Nghymru i'r hyn ydyw yn Lloegr. Gallai hefyd effeithio ar y cyngor cyfreithiol a roddir gan y proffesiwn cyfreithiol ac ar gymhwyso'r gyfraith gan y farnwriaeth. Mae ymrannu cynyddol rhwng cyfreithiau a wneir yn Lloegr a rhai a wneir yng Nghymru yn cyflwyno'r posibilrwydd o gam-gymhwyso'r gyfraith. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynigion i ddileu carcharu am beidio â thalu'r treth cyngor o fis Ebrill 2019 ymlaen. Rhaid i'r cyngor cyfreithiol a roddir gan y proffesiwn cyfreithiol a chymhwysiad y gyfraith gan y farnwriaeth gydnabod y gwahaniaeth rhwng y gyfraith sy'n berthnasol yn Lloegr a'r gyfraith sydd mewn grym yng Nghymru.

## Addysg a hyfforddiant cyfreithiol

48. Ar hyn o bryd mae ymarferwyr yn cyflawni addysg a hyfforddiant israddedig ac academaidd proffesiynol. Er bod darparwyr addysg a hyfforddiant cyfreithiol yng Nghymru bellach yn cynnig cynnwys penodol i Gymru, prin iawn yw'r darparwyr yng Nghymru a Lloegr sydd â modiwlau dynodedig ar gyfraith Cymru, felly mae perygl mewn tirlun o ymrannu parhaus na fydd cyfran sylweddol o ymarferwyr yn ymwybodol o'r ymrannu rhwng cyfreithiau a wneir yn Lloegr a rhai a wneir yng Nghymru.

## Adnoddau a darparu gweithredol

49. Pan fydd cyfreithiau'n ymrannu, mae angen i gyrrff darparu cyfiawnder ddatblygu trefniadau penodol sy'n gwahaniaethu rhwng y cyfreithiau sy'n berthnasol yng Nghymru a'r rhai sy'n berthnasol yn Lloegr. Rhaid i systemau a meddalwedd TG yn y llysoedd ddarparu ar gyfer ymrannu. Mae angen i bob corff darparu ystyried trefniadau cynllunio busnes penodol i ragweld ac adlewyrchu effaith cyfreithiau sy'n benodol i Gymru, er enghraifft gallai effeithiau deddfwriaeth ar brysurdeb llysoedd a phoblogaeth carchardai fod yn wahanol yn y ddwy wlad. Byddai hefyd hyfforddiant ychwanegol i staff y llysoedd i ddeall bod gwahanol gyfreithiau'n berthnasol.
50. Un effaith fawr a deimlwyd yn barod mewn rhai ardaloedd yw'r gost o ddiwygio neu ddatblygu systemau TG newydd sydd angen gweithredu fymryn yn wahanol gan ddiybnu ar ba ddeddfwriaeth sy'n ymrannu. Yr enghraifft amlycaf yw'r newidiadau sydd angen eu gwneud i borth ar-lein GLITEM ar gyfer hawlio meddiant. O ganlyniad i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae llwybr ychydig yn wahanol i landlordiaid sy'n hawlio meddiant yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr. Er ei bod yn gymharol rhwng gwahaniaethu rhwng y ddeddfwriaeth, dylai defnyddwyr y system ar-lein ddisgwyl gweld ffurflenni gwahanol ar gyfer achosion yng Nghymru. Mae datblygu'r system i ymdopi â'r gwahaniaeth hwn yn drwm ar gost ac amser a bydd angen ei ystyried pob tro y mae deddfwriaeth yn newid y ffordd y mae unrhyw un o systemau GLITEM yn gweithredu.

## Heriau eraill yn ymwneud ag ymrannu rhwng cyfreithiau

51. Er enghraifft:

- a. mae trosglwyddo pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o dan wahanol setliadau datganoli yn creu diffyg eglurdeb o ran pa gorff sydd â'r pŵer i wneud cyfraith neu ymarfer pwerau cyfreithiol.
- b. gall Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol yn y meysydd datganoledig. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed mewn un adran, bod angen adnabod y gwahanol ddarpariaethau sy'n berthnasol i wahanol weinyddiaethau. (er enghraifft – Adran 569 Deddf Addysg 1996).
- c. y dull traddodiadol o ddiwygio a ddefnyddir ar gyfer deddfwriaeth Senedd y DU yw cyhoeddi'r diwygiad yn unig – nid y testun diwygiedig (er nad yw hyn yn berthnasol i Gymru yn unig). Oni bai y cyfeirir yn ôl at y gyfraith sy'n cael ei diwygio, gallai'r ystyr fod yn aneglur; a
- d. y llwyth enfawr o ddeddfwriaeth a'r ffaith nad yw gwahanol reolau sy'n berthnasol i sefyllfa wedi eu casglu mewn un lle, ond ar draws y llyfr statud. Cafwyd yr enghraifft ganlynol mewn adroddiad 2016 gan Gomisiwn y Gyfraith ar hygyrchedd cyfreithiau yng Nghymru: gan ddibynnu ar ba mor eang y diffinnir "cyfraith addysg", mae'r gyfraith sy'n berthnasol i addysg yng Nghymru i'w chael mewn rhwng 17 a 40 Deddf Seneddol, 7 Mesur Cynulliad a 6 Deddf Cynulliad, ac mewn cannoedd o offerynnau statudol.

## Ymrannu a'r llysoedd

52. Mae gan ymrannu hefyd oblygiadau i'r llysoedd, er mai bach yw'r effeithiau hyd yn hyn. Ymddengys bod hyn oherwydd bod y llysoedd yn dilyn dull cyson o ddelio â phawb sy'n dod ger eu bron, beth bynnag yw ffynhonnell y ddeddfwriaeth a greodd y drosedd honedig yr erlynir y person o'i herwydd. Mae prosesau a gweithdrefnau'r llys yn cymhwyso'n gyfartal i bob achos a byddent yn cael eu cymhwyso i unrhyw ddeddfwriaeth a allai greu ymrannu rhwng troseddau.
53. Mae GLITEM yn ffyddiog y gellid ymdrin yn hawdd ag unrhyw droseddau o dan ddeddfwriaeth Cymru drwy i'r llysoedd ddilyn eu gweithdrefnau arferol. Mae effaith ymrannu ar rai agweddau ar fusnes y llys hefyd felly wedi bod yn fach (er enghraifft, gyda gwaith Teulu, cafodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ei gweithredu yn 2016). Derbyniodd y farnwriaeth a Chynghorwyr Cyfreithiol teuluol hyfforddiant ar y ddeddfwriaeth hon, gan ddisgwyl y byddai'n cael effaith fawr ar y Llysoedd Teulu yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru nag ar rai yn Lloegr, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hybu lles rhai sydd angen gofal a chymorth arnynt, neu ofalwyr sydd angen cymorth arnynt, yn oedolion yn ogystal â phlant. Roedd disgwyl felly y byddai gweithrediad y Ddeddf yn cael effaith fawr ar y llysoedd, er enghraifft wrth i lys orfod delio â'r her nad oedd awdurdodau lleol wedi darparu lefel y gofal a chymorth sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Mewn realiti, ychydig iawn o effaith a fu ar y llysoedd.

## Dull Gwasanaeth Erlyn y Goron o ddelio ag ymrannu

54. Nid yw effaith ymrannu wedi bod yn broblem ychwaith o ran dull Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth erlyn achosion ar gyfer gwahanol ymchwilwyr, er enghraifft Cyllid a Thollau EM a'r Adran Gwaith a Phensiynau, a allai fod ganddynt wahanol bolisiâu gorfodaeth wrth gyfeirio achosion at GEG i wneud penderfyniad ynghylch cyhuddo. Y rheswm yw bod modd cymhwyso egwyddorion cyffredinol y Cod yn hyblyg, wedi eu hategu gan bolisi, canllawiau a Safonau Cyhuddo dynodedig GEG, fel bo angen.
55. Mae GEG wedi awgrymu bod modd ymgorffori unrhyw droseddau o dan ddeddfwriaeth Cymru yn hawdd o fewn ei bolisiâu a'i ymarfer. Fodd bynnag, os oes angen canllawiau penodol ar drosedd neilltuol, gallant roi sylw i hyn drwy eu canllawiau cyfreithiol a / neu drwy ddiwygio neu hyd yn oed drwy greu Safon Cyhuddo berthnasol, oherwydd dyfeisiwyd hwynt i gynorthwyo erlynwyr a swyddogion heddlu i ddewis y cyhuddiad mwyaf priodol, yng ngoleuni ffeithiau'r achos.

## Effaith ymrannu ar ynadon a'u cynghorwyr cyfreithiol

56. Mae ymrannu'n effeithio ar waith ynadon a'u cynghorwyr cyfreithiol. Mae'r Pwyllgor wedi awgrymu bod angen proses i sicrhau bod y llysoedd, awdurdodau erlyn a chyfreithwyr yr amddiffyniad yn cael eu hysbysu mewn da bryd o ddeddfwriaeth sy'n creu ymrannu rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr, er enghraifft troseddau penodol. Mae angen arfogi ynadon a'u cynghorwyr cyfreithiol i ddeall a gweithio gydag ymrannu fel rhan o'r rhaglen hyfforddi a ragnodir gan y Coleg Barnwrol. Fel arfer mae canllawiau ar newid deddfwriaeth yn cael eu cyflwyno drwy gylchlythyrau'r Swyddfa Gartref, y Coleg Barnwrol a Chymdeithas y Clercod Ynadon. Mae angen i'r canllawiau hyn adlewyrchu deddfwriaeth sydd ond yn berthnasol i Gymru, ac ond yn berthnasol i Lloegr.
57. Wrth ddedfrydu diffynyddion, mae ynadon yn dibynnu ar ganllawiau dedfrydu a osodwyd gan y Cyngor Dedfrydu Ynadon i sicrhau cysondeb. Mae'n bwysig sicrhau bod y cysondeb hwn yn digwydd ar draws y bwrdd. Fodd bynnag dylai'r broses JSII sicrhau bod unrhyw effeithiau pendraw, gan gynnwys newidiadau i ganllawiau dedfrydu, yn cael eu nodi.
58. Y brif ffynhonnell cyfeirio cyfreithiol a ddefnyddir gan gynghorwyr cyfreithiol yw *Stone's Justices' Manual*, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth benodol i Gymru. Rhaid i hyn newid, neu mae angen defnyddio ffynhonnell arall. Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda materion sydd bron byth yn dod gerbron y llys, oherwydd mae'n anodd i gynghorwyr cyfreithiol ac ynadon gynnal arbenigedd a gwybodaeth weithio dda am faterion o'r fath. Er enghraifft, daeth y ddeddfwriaeth ar Orchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion i rym yng Nghymru ar 6 Ebrill 2016, ond prin iawn fu'r ceisiadau gan ei gwneud yn anodd creu a chynnal gwybodaeth weithio dda i helpu i gynghori ynadon.

## Ymdrechion presennol i reoli ymrannu

59. Mae adnabod a rheoli ymrannu wedi cael ei gydnabod gan y Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru, gan argymhell:
60. *"Y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sefydlu trefniadau clir i sicrhau (a) bod anghenion penodol Cymru yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu a gweithredu polisi, a bod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at hyn lle bo hynny'n briodol; a (b) bod gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a NAW (er enghraifft am newidiadau deddfwriaethol i ddod) yn cael ei chyfathrebu'n effeithiol i bob rhan berthnasol o'r system gyfiawnder"*.
61. Ers 1 Ebrill 2018 mae'n ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi datganiad gan yr unigolyn sy'n gyfrifol am Fesur ar gyflwyno effaith y Mesur ar y system gyfiawnder. Mae nifer o drefniadau yn eu lle ar hyn o bryd i reoli effaith ymrannu o fewn yr awdurdodaeth gyfunol i sicrhau bod y sector cyfiawnder yn gweithio'n agos a chydweithredol ag asiantaethau datganoledig yng Nghymru fel bod modd darparu polisiâu, strategaethau ac amcanion yn effeithiol.
62. Mae'r Pwyllgor wedi cydnabod bod ymdrechion wedi eu gwneud gan swyddogion i reoli ymrannu. Er enghraifft, mae'r MoJ wedi bod yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i gyflwyno ffurflen Adnabod Effaith ar y System Gyfiawnder (JSII), fel bod swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion polisi perthnasol a breichiau darparu'r MoJ yn gallu cysylltu'n uniongyrchol i sicrhau bod unrhyw effeithiau'n cael eu hadnabod cyn cyflwyno Mesurau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Drwy wneud hyn gellir cymryd camau perthnasol i sicrhau y gweithredir deddfwriaeth Cymru'n briodol ac effeithiol. Yn ogystal â deddfwriaeth sylfaenol y Cynulliad, mae'r broses hon hefyd yn berthnasol i is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddfau'r Cynulliad a wnaed ar ôl 1 Ebrill 2018. Gellir defnyddio'r broses Prawf Effaith ar Gyfiawnder (sef adnabod effaith deddfwriaeth Llywodraeth y DU ar y system gyfiawnder) (JIT) i adnabod a chofnodi achosion lle mae deddfwriaeth ar gyfer Lloegr yn unig yn cael ei chreu. Drwy'r broses JIT, rhaid i arweinwyr polisi nodi a yw'r ddeddfwriaeth yn berthnasol i Loegr yn unig gan ddefnyddio'r wybodaeth i adnabod pob deddfwriaeth o'r fath ers i'r broses ddechrau.
63. Nododd y Pwyllgor fod ymrannu cynyddol rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr yn anochel o ystyried bod dwy ddeddfwriaeth gwneud cyfreithiau o fewn awdurdodaeth gyfunol Cymru a Lloegr. Bydd y Cynulliad yn parhau i ddatblygu deddfwriaeth sy'n creu cyfreithiau perthnasol i Gymru yn unig, rhai gyda throseddau newydd, darpariaethau trwyddedu, mesurau gorfodaeth a mwy, ac i gyd yn cael effaith fwy neu lai ar system gyfiawnder, llysoedd a thribiwnlysoedd y DU. Felly hefyd, gallai fod angen darparu cyfiawnder yn wahanol ar gyfer cyfreithiau Lloegr yn unig a ddeddfir gan Senedd y DU o'i gymharu â threfniadau sydd yn eu lle ar gyfer cyfreithiau Cymru, a gallai hyn effeithio ar wasanaethau datganoledig. Byddai'r system yn dod yn fwyfwy anhylaw felly mae angen gwneud mwy i gryfhau'r system ymhellach.
64. Mae'r Pwyllgor wedi awgrymu ei bod yn bwysig adnabod beth yn fwy y gellir ei wneud i roi sylw i'r goblygiadau gweithredol ymarferol i'r system gyfiawnder o ganlyniad i ymrannu. Tynnodd y Pwyllgor sylw'n benodol at:
- y risg o ddyblygu gorfodi rhai cyfreithiau'n deillio o Gymru gyda darpariaethau gorfodi sydd eisoes mewn grym ar sail Cymru a Lloegr, neu ar sail y DU;

- b. bod angen i'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu cyfiawnder fod yn ymwybodol o, a deall y gwahaniaethau a allai fodoli pan fydd achosion yn deillio o (neu'n effeithio ar) Gymru, e.e. i'r GEG o ran rhoi cyngor ar gyhuddo / erlyn, ac i'r llys o ran gwrandao achosion o ymosod cyffredin ar blant;
  - c. bod angen bod yn ymwybodol o, a deall effaith cyfreithiau'n ymrannu ar yr heddlu; a
  - d. bod angen ymwybyddiaeth gyffredinol o gyfreithiau'n ymrannu ar draws y tirlun cyfiawnder.
65. Teimlai'r Pwyllgor ei bod hefyd yn bwysig ystyried beth y gellir ei wneud yn y tymor byr i sicrhau rheolaeth drylwyr ac effeithiol o ymrannu, er enghraifft, cydweithrediad ac ymgysylltu rheolaidd ac agosach rhwng yr MoJ, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill fel: y Coleg Barnwrol ar ddarparu hyfforddiant dynodedig i aelodau o'r farnwriaeth; darparwyr hyfforddiant proffesiynol ar fod angen cynnwys cyfreithiau Cymru fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus ymarferwyr cyfreithiol; a darparwyr a rheoleiddwyr addysg gyfreithiol i gefnogi datblygiad cyfreithiau Cymru mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant.

### Argymhelliad y Pwyllgor ar ymrannu

66. Mae'r Pwyllgor yn argymhell:

67. Bod yr MoJ a Llywodraeth Cymru yn ystyried y canlynol:

- a. bod angen rhoi trefniadau ymarferol yn eu lle i sicrhau bod breichiau darparu a chyrrff datganoledig yn cael eu hysbysu o ymrannu cyn gweithredu deddfwriaeth ymrannol fel y gallant roi mesurau yn eu lle i adnabod, cytuno a rheoli unrhyw effeithiau'n briodol
- b. ymgyrch ymwybyddiaeth i hysbysu rhanddeiliaid am faterion ymrannu
- c. sicrhau bod hyfforddiant i ymarferwyr yn adlewyrchu ymrannu
- d. gweithio gyda Chymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar i sicrhau bod darparwyr addysg gyfreithiol yn addasu eu cyrsiau'n briodol

## Cefndir

68. Sefydlwyd y Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru yng nghyd-destun y drafodaeth am natur datganoli cyfiawnder yn ystod taith Mesur Cymru drwy'r Senedd, gyda'i gylch gorchwyl yn pwysleisio'n benodol y mater o ymrannu rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr. Nod y gweithgor oedd hyrwyddo a sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei ddarparu'n drefnus ac effeithiol i bobl Cymru gan argymell:
69. *"Y dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol arbenigol anstatudol i gyflawni adolygiad parhaus o weithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru. Dylai'r aelodaeth gynnwys arbenigedd o'r sector cyfiawnder a dylai ei gadeirydd fod yn annibynnol i'r MoJ, Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru."*
70. Felly hefyd, yn ystod taith Mesur Cymru (2017) drwy Senedd y DU, ymrwymodd Gweinidogion y DU y byddai Llywodraeth y DU yn sefydlu pwyllgor annibynnol anstatudol i gyflawni adolygiad parhaus o ddarparu cyfiawnder yng Nghymru. Roeddent wedi rhagweld y byddai'r pwyllgor yn gorff annibynnol a fyddai'n adolygu'r system gyfiawnder yng Nghymru yn barhaus a chynghori'r MoJ ar fesurau posib y gellid eu gweithredu i sicrhau bod cyfiawnder yng Nghymru yn cael ei weinyddu'n effeithiol er effeithiau parhaus yr ymrannu rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr.
71. O ganlyniad, ar ddechrau 2017, cafodd cylch gorchwyl ac aelodaeth arfaethedig y pwyllgor eu cytuno gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru a chysylltwyd â darpar aelodau ar gyfer y Pwyllgor.
72. Ers 1 Ebrill 2018 mae Deddf Cymru wedi bod yn llwyr weithredol (cyflwynwyd rhai darpariaethau'n gynt ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol yn Ionawr 2017). Roedd setliad datganoli Cymru hyd at 1 Ebrill 2018 yn seiliedig ar fodel rhoi pwerau. Rhestrwyd y pwerau a gafodd eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (GoWA). Ond yn dilyn Deddf Cymru 2017 ("y Ddeddf") rhoddwyd model rhoi pwerau datganoli newydd yn ei le yng Nghymru lle mae unrhyw fater na restrir yn yr Atodlen 7A newydd i GoWA yn cael ei ddatganoli. Rhoddir mwy o fanylion am y setliad datganoli i Gymru yn ([Atodiad D](#)).
73. Mae Cymru a Lloegr yn parhau i fod ag awdurdodaeth gyfreithiol gyfunol (awdurdodaeth gyfunol Cymru a Lloegr) gyda threfniadau gweinyddol cyfunol ar gyfer darparu cyfiawnder o fewn yr awdurdodaeth gyfreithiol. Mae model gweithredu'r system gyfreithiol gyfunol yn gwasanaethu Cymru a Lloegr i gyd gyda'r nod o roi mynediad at gyfiawnder.
74. Mae gan brif Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLITEM) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) freichiau gweithredol sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr i gyd, gyda gwelededd dynodedig yng Nghymru ar gyfer system ar y cyd o weinyddu cyfiawnder o fewn system gyfreithiol Cymru a Lloegr.

75. Felly mae'r asiantaethau darparu cyfiawnder wedi eu gwasgaru ar draws Cymru a Lloegr i weinyddu'r system hon, gan gynnwys seilwaith ac adnoddau sy'n hwyluso darparu gwasanaethau cyfiawnder yn y ddwy wlad. Maent hefyd yn darparu'r cymorth sydd ei angen (ar draws Cymru a Lloegr) fel bo'r farnwriaeth, aelodau tribiwnlys ac ynadon yn gallu ymarfer eu swyddogaethau barnwrol yn annibynnol. Mae'r Swyddfa Farnwrol a'r Coleg Barnwrol hefyd yn darparu gwasanaethau i gefnogi barnwriaeth Cymru, gan gynnwys i gryfhau eu galluoedd.
76. O gofio setliad datganoli Cymru a'r cysylltiadau rhwng materion datganoledig a materion a gedwir yn ôl, mae'n bwysig sicrhau bod perthynas agos, barhaus a chydweithredol rhwng awdurdodau datganoledig a rhai sy'n dal eu gafael ar bwerau, ac asiantaethau darparu cyfiawnder yng Nghymru. Disgrifir y trefniadau gweithio rhwng yr MoJ, asiantaethau darparu cyfiawnder a Llywodraeth Cymru yn ([Atodiad E](#)).
77. Gallai gadael yr UE effeithio ar y system gyfiawnder a darparu gwasanaethau yng Nghymru. Ond oherwydd natur trafodaethau Gadael yr UE ar hyn o bryd, nid yw'n bosib gwybod ar ba faterion Gadael yr UE y bydd angen i'r Pwyllgor ganolbwyntio ei ystyriaeth, er ei fod yn cadw ar y blaen i'r datblygiadau.



## ATODIAD A

### Argymhellion y Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru

Mae'r Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru wedi argymhell:

1. Bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried a fyddai unrhyw fudd o roi cyfrifoldeb penodol i un o Weinidogion yr MoJ am ystyried sut y darperir gwasanaethau'r MoJ yng Nghymru (yn ogystal â'r rôl Weinidogol bresennol yng nghyswllt datganoli'n gyffredinol).
2. Bod Bwrdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried cael trafodaeth flynyddol (o leiaf) ynghylch sut y mae'r adran yn ei chyfanwydd yn cwrdd ag anghenion penodol Cymru. Dylai'r drafodaeth gael ei goleuo gan waith y Pwyllgor Ymgynghorol Arbenigol (argymhelliad 10). Dylai'r Bwrdd ystyried cynnal y cyfarfod hwn (neu eraill) yng Nghymru.
3. Bod Pwyllgor Gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried cynnal trafodaeth ag uwch-reolwyr yr MoJ sy'n gyfrifol am Gymru o bob un o'r prif gyrff gweithredol i drafod sut y maent yn gweithio gyda'i gilydd (ac eraill) i ddarparu gwasanaethau yn y ffordd orau yng Nghymru.
4. Bod Gweinidogion yr MoJ yn ymgysylltu'n weithredol â Gweinidogion o Lywodraeth Cymru ar gasgliadau'r Gweithgor, ac yn enwedig i ddod i gytundeb terfynol ar goncordat.
5. Bod Pwyllgor Gweithredol yr MoJ yn ystyried cyfarfod ar y cyd â'u cymheiriaid yn Llywodraeth Cymru i drafod sut y gallai'r MoJ weithio gyda chyrrff datganoledig ar amcanion cyffredin. Dylid ystyried a ddylid gwneud hyn yn flynyddol.
6. Bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn sefydlu trefniadau clir i sicrhau (a) bod anghenion penodol Cymru'n cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu a gweithredu polisi, a bod Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at hyn lle bo hynny'n briodol; a (b) bod gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a NAW (er enghraifft am newidiadau deddfwriaethol i ddod) yn cael ei chyfathrebu'n effeithiol i bob rhan berthnasol o'r system gyfiawnder.
7. Bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried creu un pwynt cyswllt i arwain ar gydgyssylltu ei gwaith yng Nghymru, gan weithio'n agos â phartneriaid mewn sefydliadau eraill a gyda Llywodraeth Cymru. Gallai'r unigolyn yma fod yn un o uwch-reolwyr presennol NOMS Cymru neu GLITEM Cymru, gyda rhywfaint o gymorth ychwanegol ar gyfer eu rôl newydd.
8. Bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn adolygu sut y mae ei harferion casglu a chyhoeddi data'n adlewyrchu'r sefyllfa wahanol yng Nghymru, gan ddadgyfuno data lle bo'n bosib i roi darlun clir o sut y mae cyfiawnder yng Nghymru yn gweithio.
9. Bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried sut y cyflwynir gwybodaeth ar ei gwefan, fel bod gwybodaeth am Gymru yn hawdd ei chyrrchu.
10. Bod Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu pwyllgor ymgynghorol arbenigol anstatudol i gyflawni adolygiad parhaus o weithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru. Dylai'r aelodaeth gynnwys arbenigedd o'r sector cyfiawnder a dylai ei gadeirydd fod yn annibynnol i'r MoJ, Swyddfa Cymru a Llywodraeth Cymru.

## ATODIAD B

### Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol Arbenigol Annibynnol

SEFYDLIAD	CYNYRCHIOLYDD
Swyddfa'r Cabinet	<ul style="list-style-type: none"> <li>Peter Lee (Cyfarwyddwr) - Cadeirydd</li> </ul>
Barnwriaeth Cymru / Coleg Barnwrol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mr Ustus Lewis (os na fydd ar gael, Mr Ustus Picken)</li> <li>Ei Anrhydedd y Barnwr Harrison (os na fydd ar gael, Ei Anrhydedd y Barnwr Jarman CF)</li> </ul>
Y Swyddfa Farnwrol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Matthew Gaunt (Swyddfa'r Arglwydd Brif Ustus)</li> </ul>
Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>Jeff Godfrey (Cyfarwyddwr, Pennaeth Cyfreithiol)</li> <li>Christopher Warner (Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyfansoddiad a Chyfiawnder)</li> </ul>
Swyddfa Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>Peter Newbitt-Jones (Pennaeth Polisi Gadael yr UE)</li> </ul>
Cyngor y Bar (ymarferydd yng Nghymru)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Paul Hopkins CF</li> </ul>
Cymdeithas y Gyfraith (ymarferydd yng Nghymru)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mark Evans (Cadeirydd Pwyllgor Cymru Cymdeithas y Gyfraith)</li> <li>Kay Powell (Cymdeithas y Gyfraith – Pennaeth Cymru Dros Dro)</li> </ul>
Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM	<ul style="list-style-type: none"> <li>Luigi Strinati (Cyfarwyddwr)</li> </ul>
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ian Barrow (Cyfarwyddwr)</li> </ul>
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dominic Lake (Dirprwy Gyfarwyddwr)</li> </ul>
Ysgrifenyddiaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>Geraint Davies (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)</li> <li>Ken Lewis-Allagoa (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder)</li> </ul>

## **ATODIAD C**

# **Cylch gorchwyl ac aelodaeth y Pwyllgor Ymgynghorol Arbenigol Annibynnol**

## **Adolygiad Parhaus o'r System Gyfiawnder yng Nghymru**

### **Pwrpas a chwmpas**

1. Pwrpas y Pwyllgor yw adolygu gweithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru a gwneud argymhellion i'w gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol o fewn awdurdodaeth gyfreithiol gyfunol Cymru a Lloegr.
2. Bydd y Pwyllgor yn cyflawni adolygiad parhaus o weithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru o dan fframwaith Deddf Cymru 2017, gan wneud argymhellion blynyddol ar sut i wella'r system.
3. Bydd y Pwyllgor yn edrych ar sut y darperir gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru, ac yn benodol y rhyngwyneb ar draws y ffin ddatganoli. Bydd y Pwyllgor yn gwneud argymhellion i sicrhau bod gwasanaethau cyfiawnder yn adlewyrchu sefyllfa wahanol Cymru yn llawn, a'u bod yn parhau i fod yn addas i'r pwrpas.
4. Ni fydd y Pwyllgor yn ystyried materion parthed haeddiannau'r awdurdodaeth gyfreithiol gyfunol na'r ffin ddatganoli a ragnodir o dan Ddeddf Cymru 2017.

### **Amcanion**

Bydd y Pwyllgor yn:

5. cyflawni adolygiad parhaus a chyfnodol o weithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru.
6. gwneud argymhellion i sicrhau bod y system gyfiawnder yng Nghymru yn cadw ar y blaen i gyfraith a wneir gan y Cynulliad a Senedd y DU o fewn yr awdurdodaeth gyfunol.
7. monitro effeithiolrwydd trefniadau gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru a gwneud argymhellion i ddarparu gwasanaethau cyfiawnder effeithlon ac effeithiol ar draws y ffin ddatganoli gan adeiladu ar enghreifftiau o arfer da a chydweithrediad.

## Adrodd ac atebolrwydd

8. Bydd y Pwyllgor yn gweithredu'n annibynnol i lywodraeth gan ddechrau ar ei waith erbyn Gwanwyn 2018. Bydd yn cyfarfod pob tri mis o leiaf yn y flwyddyn gyntaf, gan gynnwys y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yng Nghymru, ac yn adolygu'r trefniadau hyn yn ei adroddiad cyntaf.
9. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Arglwydd Ganghellor, gyda chopïau i Brif Weinidog Cymru, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Arglwydd Brif Ustus. Cyhoeddir copi o'r Adroddiad ar GOV.UK.
10. Cyflwynir a chyhoeddir yr adroddiad cyntaf yn y Gwanwyn 2019.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

11. I oleuo ei adolygiadau, bydd y Pwyllgor yn ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ac yn casglu tystiolaeth gan ymarferwyr sy'n gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru a defnyddwyr y gwasanaethau hyn. Gallai'r Pwyllgor gyhoeddi ceisiadau am dystiolaeth i'w helpu i gasglu tystiolaeth gan rhanddeiliaid.

## Aelodaeth

12. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys (enwau ar gael unwaith y cytunir ar yr aelodaeth):
  - a. Cadeirydd: Uwch-swyddog o Swyddfa'r Cabinet
  - b. Uwch-swyddog o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder
  - c. Uwch-swyddog o Lywodraeth Cymru
  - d. Cynrychiolwyr o'r farnwriaeth yng Nghymru
  - e. Cynrychiolwyr o'r proffesiwn cyfreithiol (Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar) yng Nghymru
  - f. Cynrychiolydd o'r Swyddfa Farnwrol / Coleg Barnwrol
  - g. Uwch-swyddog o Swyddfa Cymru
13. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ni fydd aelodau'n cael eu talu, ond bydd costau teithio a chynhaliadaeth yn cael eu talu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## ATODIAD D

### Setliad Datganoli Cymru

1. Yn dilyn cyhoeddi'r papur gorchymyn Pwerau at bwrpas: *Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru* (a adwaenir fel "Cytundeb Dydd Gŵyl Dewi"), cyflwynodd Llywodraeth y DU Fesur Cymru drafft i'r Senedd a oedd, am y tro cyntaf, yn creu model rhoi pwerau i Gymru.
2. Yn unol â manifestos y pleidiau yn 2015, roedd hyn yn seiliedig ar yr egwyddor y byddai cyfrifoldeb am gyfiawnder yn aros gyda Senedd y DU ac y byddai cyfiawnder, am y tro cyntaf, yn cael ei ddiffinio fel "mater a gedwir yn ôl". Fe wnaeth y Ddeddf hon drwy ddiffinio a rhestru swyddogaethau cyfiawnder fel "materion a gedwir yn ôl" o dan yr Atodlen 7A newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan ragnodi awdurdodaeth gyfreithiol gyfunol Cymru a Lloegr fel un a fyddai'n cynnwys y materion a gedwir yn ôl canlynol:
  - a. llysoedd (gan gynnwys, yn benodol, eu creu a'u hawdurdodaeth);
  - b. barnwyr (gan gynnwys, yn benodol, eu penodi a'u talu);
  - c. achosion sifil neu droseddol (gan gynnwys, yn benodol, mechnïaeth, costau, cadw yn y ddalfa cyn treial, datgeliad, gorfodi gorchmynion y llys, tystiolaeth, dedfrydu, cyfyngu ar ddwyn achos, gweithdrefn, erlynwyr a rhwymedïau);
  - d. rhoi pardwn am droseddau;
  - e. cyfraith ryngwladol breifat;
  - f. adolygiad barnwrol o weinyddiaeth.
3. Roedd y Ddeddf hefyd yn gwneud rhai eithriadau pwysig i faterion a gedwir yn ôl er mwyn cydnabod cymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion datganoledig a sicrhau bod y cyfrifoldeb yn glir lle mae rhyng-gyswllt rhwng y system gyfiawnder a'r materion datganoledig hynny, er enghraifft:
  - a. Nid yw'r cyfeiriad at erlynwyr yn atal un o Ddeddfau'r Cynulliad rhag gwneud darpariaeth ynghylch pwy sydd i fod yn gyfrifol am erlyn troseddau datganoledig;
  - b. Nid yw cyngor, cynrychiolaeth a chymorth mewn achosion teulu'n ymwneud â lles plant sydd fel arfer yn byw yng Nghymru yn faterion a gedwir yn ôl;
  - c. Er bod tribiwnlysoedd fel arfer yn fater a gedwir yn ôl, mae'r Ddeddf yn cydnabod bodolaeth Tribiwnlysoedd (datganoledig) Cymru ac yn creu Llywydd newydd ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru i fod yn gyfrifol am
4. *"cynnal y trefniadau priodol ar gyfer hyfforddiant, lles a rhoi arweiniad i aelodau tribiwnlysoedd Cymru o fewn y ffynonellau sydd ar gael gan Weinidogion Cymru; ac am gyflwyno barn aelodau tribiwnlysoedd Cymru i Weinidogion Cymru ac i aelodau eraill o Gynulliad Cenedlaethol Cymru"*.
5. Mae'r Ddeddf hefyd yn cydnabod bod yn rhaid i'r Cynulliad fod yn gallu addasu'r gyfraith ar gyfer materion datganoledig er mwyn gweithredu deddfwriaeth Cymru yn briodol. Drwy wneud hyn mae'r Cynulliad yn gallu creu troseddau newydd ar faterion datganoledig (er enghraifft, cosbi plant). Fodd bynnag, mae'r gyfraith droseddol ei hun wedi'i chyfyngu o dan Atodlen 7B sy'n nodi nad yw deddfwriaeth y Cynulliad "yn cael addasu, na rhoi pwerau o dan is-ddeddfwriaeth i addasu trosedd mewn categori a restrir" gan gynnwys:

6. brad a throseddau cysylltiedig; troseddau dynladdiad (gan gynnwys troseddau hunanladdiad), troseddau eraill yn erbyn pobl (gan gynnwys troseddau trais neu figwth trais) y gellir ond dwyn achos ar eu cyfer ar dditiad; troseddau rhyw a thyngu anudon.

Felly hefyd, ni all darpariaeth mewn Deddf gan y Cynulliad "wneud addasiadau i, na rhoi pwerau o dan is-ddeddfwriaeth i wneud addasiadau i'r gyfraith ar -

- (a) cyfrifoldeb a chapasiti troseddol,
- (b) ystyr bwriad, byrbwylltra, anonestrwydd ac agweddau meddyliol eraill ar droseddau,

Deddf Cymru 2017 (c. 4)

Atodlen 2 – Atodlen 7B newydd i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

94

- (c) atebolrwydd troseddol rhagarweiniol ac eilaidd, neu
- (d) dedfrydau a gorchmynion ac atebion cyfreithiol eraill ynghylch diffynyddion mewn achosion troseddol, neu fel arall ynghylch ymddygiad troseddol, eu heffaith a'u gweithrediad

## ATODIAD E

### Y berthynas weithio rhwng yr MoJ a Llywodraeth Cymru

1. Mae'r MoJ a'i hasiantaethau darparu wedi cyflwyno nifer o raglenni sydd wedi gwella'n sylweddol nid yn unig sut y darperir cyfiawnder yng Nghymru ond hefyd y berthynas weithio rhwng yr MoJ a Llywodraeth Cymru, a gyda phartneriaid darparu eraill ar draws y tirlun cyfiawnder yng Nghymru. Er enghraifft, mae cyhoeddi Concordat a gytunwyd rhwng yr MoJ a Llywodraeth Cymru wedi creu sail ar gyfer cydweithrediad cryf ac yn gam pwysig ymlaen ar gyfer ymgysylltu rhwng yr MoJ a Llywodraeth Cymru. Mae'r Concordat, a gytunwyd ym mis Mai eleni, yn disgrifio'r trefniadau ar gyfer ymgynghori a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a'r MoJ, gan gynnwys ar gyfnewid gwybodaeth, effeithiau cyfiawnder, mynediad at wasanaethau, datrys anghydfod ac adolygu'r berthynas. Mae'r Concordat ar hyn o bryd yn ategu a chryfhau'r berthynas weithio rhwng yr MoJ a Llywodraeth Cymru.
2. Erbyn hyn mae uwch-swyddog cyswllt yn HMPPS Cymru yn gweithio i helpu i hwyluso'r cysylltiad rhwng polisiâu ac ochr weithredol yr MoJ a'r rhyngwyneb â Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi rhoi ffocws newydd i weithio'n gydweithredol yng Nghymru, gan wella'r berthynas rhwng partneriaid yng Nghymru o ganlyniad.
3. Sefydlwyd Grŵp Strategol Cyfiawnder yng Nghymru hefyd (wele uchod) sy'n dod â chydweithwyr polisi a gweithredol o Lywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Erllyn y Goron at ei gilydd. Mae hyn wedi creu fforwm effeithiol ar gyfer trafod ac wedi hwyluso cydweithrediad mwy effeithiol ar faterion polisi yng Nghymru nag yn y gorffennol. Mae'r dull newydd hwn o weithio gyda'n gilydd hefyd wedi cyflwyno cyfleoedd i adnabod a manteisio ar y ffyrdd gwahanol y darperir gwasanaethau yng Nghymru.
4. Yn 2018, penderfynodd HMPPS Cymru hefyd greu glasbrint strategol ar gyfer dull mwy cydweithredol o ddarparu gwasanaethau. Mae'r ffocws presennol ar ferched a phobl ifanc ond bwriedir ehangu'r dull i ddynion sy'n oedolion wrth i fwy o gynnydd gael ei wneud. Mae hyn yn newid mawr yn y berthynas i gyrraedd sefyllfa o gydweithrediad rhwng y sefydliadau. Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, wedi'i gadeirio gan Gyfarwyddwr Darparu GLITEM Cymru, hefyd wedi cytuno ar flaenoriaethau i sicrhau bod yr holl brif randdeiliaid, gan gynnwys y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, yn cyfrannu at wella cyfiawnder yng Nghymru.
5. Cafwyd nifer o raglenni i geisio adlewyrchu'r sefyllfa wahanol yng Nghymru o ran darparu cyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori'n ddiweddar ar ddyfodol y gwasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr. Cafodd gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ei chreu gan gynnwys:
  - a. Contractau'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) yn dod i ben ddwy flynedd yn gynnar yn 2020, gyda threfniadau newydd yn eu lle i ateb yr heriau presennol
  - b. Ardaloedd cwmnïau CRC a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) i gael eu cyfodod – gan helpu i gryfhau cysylltiadau gyda phartneriaid allweddol
  - c. £22m ychwanegol pob blwyddyn i'w fuddsoddi mewn cymorth "drwy'r gât" i droseddwyr dros y ddwy flynedd nesaf i wella eu rhagolygon tai a gwaith

- d. Bydd yr NPS a'r cwmnïau CRC yng Nghymru yn cael eu cyfuno'n un system, er mwyn adlewyrchu'r trefniadau datganoli yn Llywodraeth Cymru yn well. Bydd NPS Cymru yn gyfrifol am reoli holl droseddwyr Cymru, gydag ymyriadau a gwasanaethau ychwanegol yn cael eu caffael o'r farchnad.
6. Fel rhan o ymgysylltu parhaus, mae tîm Datganoli Cyfiawnder yr MoJ yn gweithio'n agos iawn â thîm Polisi Cyfiawnder Llywodraeth Cymru ar draws pob maes polisi; mae'r ddau dîm yn cwrdd yn rheolaidd i ddiweddarau ar feysydd allweddol gan wahodd arweinwyr polisi i gyfarfodydd ar y cyd i drafod manylion y rhaglenni. Bu'r timau'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a chytuno'r Concordat. Bu'r timau hefyd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gweithredu'r broses newydd o adnabod effeithiau polisiâu Cymru ar y system gyfiawnder, gan helpu i gwrdd â'r ddyletswydd o dan adran 11 Deddf Cymru 2017.